**EOC-05-99(agd)**

**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** Dydd Iau, 9 Rhagfyr 1999

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**
**Papur: EOC-05-99(p.1)**

**Eitem 2: Adroddiad Cynnydd ar y Rhaglen Waith**

Bydd y Cadeirydd a swyddogion yn hysbysu'r Aelodau am gynnydd y strategaeth a'r rhaglen waith gysylltiedig a gytunwyd mewn cyfarfodydd blaenorol.

**Eitem 3: Hybu Ymwybyddiaeth yngln â Chydraddoldeb ymhlith Aelodau'r Cynulliad**
**Papur: EOC-05-99(p.2)**

Bydd swyddogion yn cyflwyno papur yn amlinellu cynigion ar gyfer hybu gwybodaeth am faterion cydraddoldeb ymhlith Aelodau'r Cynulliad, yn arbennig y rhai hynny sy'n ymwneud â'r drefn penodiadau cyhoeddus.

**Eitem 4: Y Bwlch Cyflogau**

**Cyflwyniad gan Teresa Rees, Comisiynydd Cyfle Cyfartal Cymru a Kate Bennett, Cyfarwyddydd Cymru, Y Comisiwn Cyfle Cyfartal**

Er gwaetha'r ffaith bod deng mlynedd ar hugain ers cyflwyno'r Ddeddf Cyflogau Cyfartal, mae anghydraddoldeb yn dal i fodoli rhwng cyflogau dynion a menywod yng Nghymru. Mae'r cyflwyniad hwn yn edrych ar y sefyllfa ac yn awgrymu ffordd ymlaen.

**Eitem 5: Cytuniad Amsterdam**
**Papur: EOC-05-99(p.3)**

Bydd swyddogion yn trafod y goblygiadau i bolisi cydraddoldeb yn deillio o Gytuniad Amsterdam.

**Eitem 6: Sefyllfa gyfreithiol Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

Bydd y papur hwn yn cynghori'r Pwyllgor yngln â sefyllfa gyfreithiol cyrff cyhoeddus mewn perthynas ag ymrwymiad y Cynulliad i gydraddoldeb yn Neddf Llywodraeth Cymru.

**Eitem 7: Beijing + 5: 2000**

**Cyflwyniad gan Julie Ashdown, Uned Menywod, Swyddfa'r Cabinet**

Bydd y cyflwyniad yn darparu gwybodaeth yngln ag amcanion a chwmpas y digwyddiad a rhan Cymru a'r DU ynddo.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EOC-04-99(min)**

Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol.